



Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Dyddiad: Dydd Llun 26 Chwefror 2018

Amser: 10:30 tan 12:30

Lleoliad: Ceredigion 3/4, Pencadlys yr Heddlu, Caerfyrddin

Yn bresennol:-

| | |
|-----------------|---|
| DT (Cadeirydd) | Ymgynghorydd Annibynnol |
| PS | Ymgynghorydd Annibynnol |
| RB | Ymgynghorydd Annibynnol |
| JJ | Ymgynghorydd Annibynnol |
| PR | Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain) |
| PL | Cyfieithydd (Iaith Arwyddion Prydain) |
| AL | Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, HDP |
| MBr (cofnodion) | Swyddog Cymorth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, HDP |
| CB | Swyddog Ymgysylltu – SCHTh |
| ML | Arbenigwr AD |

Yn bresennol ar gyfer cyflwyno yn unig:-

| | |
|----|---------------------------------------|
| BJ | Cydlynnydd y Cynllun Cyswllt Ysgolion |
| IA | Swyddog Cyswllt Ysgolion – Ceredigion |
| EN | Uwch Reolwr Cyfathrebu Corfforaethol |

1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb a Chyflwyniadau

Cyflwynwyd pawb a nodwyd ymddiheuriadau gan y canlynol:

| | |
|----|---------------------------------------|
| NC | Ymgynghorydd Annibynnol |
| NH | Ymgynghorydd Annibynnol |
| DM | Ymgynghorydd Annibynnol |
| MD | Swyddog Ymgysylltu Cymunedol, SCHTh |
| KR | Ymgynghorydd Annibynnol |
| RI | Prif Arolygydd – Partneriaethau Powys |
| VE | Prif Uwch-arolygydd – Plismona Lifrog |

2. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod hwnnw.

Camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf:-

| Rhif Cam Gweithredu | Manylion am y Cam Gweithredu | Perchennog | Diweddariad: |
|---------------------|--|------------|--|
| 1 | EN i sicrhau bod manylion swyddogion troseddau casineb yn cael eu cynnwys ar y tudalen troseddau casineb a hefyd bod manylion Swyddogion/ SCCH yn gyffredinol yn cael eu cynnwys ar y tudalen we newydd. | EN | <p>Yn parhau -</p> <p>Bydd gwybodaeth ynghylch yr hyn yw Trosedd Casineb, sut y gall swyddog troseddau casineb helpu a sut i gysylltu â swyddog troseddau casineb ar wefan HDP. Cytunwyd na fyddai manylion cyswllt unigol yn cael eu cynnwys gan nad oes modd cysylltu â swyddogion/SCCH pan nad ydynt ar ddyletswydd. Bydd y dudalen ar droseddau casineb yn nodi y gall aelodau o'r cyhoedd gysylltu â swyddog troseddau casineb yn eu cymuned trwy alw 101.</p> <p>AL/EM i drefnu darn penodol o waith er mwyn codi ymwybyddiaeth o fewn y Gymuned Fyddar er mwyn sicrhau eu bod nhw'n deall sut i gysylltu â'r heddlu.</p> |
| 2 | Sicrhau bod y Timau Plismona Bro yn rhoi'r rhif symudol difrys y gwasanaeth negeseuon testun ar gyfer pobl sy'n fyddar, yn drwm eu clyw neu sydd â nam ar y lleferydd ar ddogfennau/taflenni sy'n cael eu hanfon at aelodau o'r cyhoedd. Adborth gan NM i'w fwydo i'r arolwg hygyrchedd. | EN | <p>Cwblhawyd – Bellach, mae'r rhif ar gyfer anfon negeseuon testun brys yn cael ei gynnwys ar ddogfennau/taflenni a phob datganiad i'r wasg.</p> |
| 3 | EN ac AL i weithio gyda PS i sicrhau bod tudalen Iaith Arwyddion Prydain HDP yn cynnwys y wybodaeth berthnasol a'i bod hi'n cael ei hehangu lle bo angen. | EN | <p>Yn parhau - EN ac AL i gwrdd er mwyn trafod pa gynnwys ar y wefan ddylai fod ar gael yn Iaith Arwyddion Prydain.</p> |

| | | | |
|----|---|-------|--|
| 4 | EN i ystyried y posibilrwydd bod e-byst allan o'r swyddfa'n cynnwys gwybodaeth am sut i adrodd am argyfwng h.y. gwybodaeth 999. | EN/AL | Cwblhawyd – Mae rhan olaf yr e-bost ymateb yn cael ei ail-ysgrifennu a bydd gwybodaeth am y rhif 999 yn cael ei chynnwys. |
| 5 | EN i anfon dolen gyswllt ar gyfer fersiwn BETA o wefan newydd HDP ar gyfer sylwadau pan fydd hi'n barod. | EN | Cwblhawyd – Mae'r wefan newydd yn cael ei chyflwyno i'r grŵp fel rhan o'r cyfarfod. |
| 6 | Ymgynghori â'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol fel rhan o'r adolygiad o deledu cylch cyfyng. | MD | Yn parhau – Nid yw'r adolygiad wedi'i gynnal eto. |
| 7 | EM i gael gwahoddiad i gyfarfod nesaf y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol ac i roi diweddariad am gynnydd mewn perthynas â gwefan HDP. | MBr | Cwblhawyd – Gwahoddwyd EM i'r cyfarfod. |
| 8 | GJ i anfon e-bost at yr uwch swyddog ymchwilio yn nigwyddiad Carnifal Aberaeron ar gyfer cysylltu â Rhwydwaith Gwrth-hiliaeth Gorllewin Cymru. | GJ | Cwblhawyd - Mae'r swyddog ymchwilio wedi cysylltu â Rhwydwaith Gwrth-hiliaeth Gorllewin Cymru gan roi cyngor a thawelwch meddwl. Bydd swyddog HDP hefyd yn bresennol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. |
| 9 | NH i anfon copi o daflen Plaid Genedlaethol Prydain a ddisbarthwyd yn dilyn digwyddiad Carnifal Aberaeron at GJ. | NH/GJ | Cwblhawyd – Anfonodd NH gopi o'r daflen i GK. Cadarnhaodd GJ nad oedd y daflen yn hiliol ei natur. |
| 10 | MBr i wahodd y cydlynnydd Swyddogion Cyswllt Ysgolion i'r cyfarfod GYA nesaf i esbonio camau gweithredu yn dilyn y digwyddiad yng Ngharnifal Aberaeron. | MBr | Cwblhawyd – Trefnwyd cyflwyniad gan Swyddog Cyswllt Ysgolion ar gyfer y cyfarfod. |
| 11 | GJ i gysylltu â'r Rhingyll Plismona Bro yn y Drenewydd i drefnu ei fod yn cysylltu ag NC i drafod ei phryderon o gwmpas hyder cyhoeddus yn yr heddlu. | GJ/NC | Cwblhawyd – Anfonwyd manylion cyswllt NC at GJ a bydd cyfarfod yn cael ei drefnu er mwyn trafod pryderon ynghylch hyder cyhoeddus yn yr heddlu. Dywedodd EM wrth y grŵp bod swyddfa'r wasg hefyd yn ymgysylltu â Phowys mewn perthynas â darn o waith ynglŷn ag ymgysylltu â chanfyddiad cyhoeddus |

| | | | |
|----|--|-----------|---|
| | | | ym Mhowys. |
| 12 | PS i roi lleoliad y fan heddlu ynghyd â'r dyddiad i MBr er mwyn rhoi adborth i swyddogion. | PS/MBr | Cwblhawyd – Rhoddir adborth i swyddogion Llanelli mewn perthynas ag ymgysylltu â'r gymuned fyddar. |
| 13 | AL i gysylltu â KR er mwyn trafod gwaith recriwtio Llywodraeth Cymru a oedd yn targedu cymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. | AL/KR | Yn parhau – Y Swyddog Gweithredu Cadarnhaol i gysylltu â KR er mwyn symud ymlaen a thrafod ymgyrch recriwtio llwyddiannus Llywodraeth Cymru o ran pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Ymgorfforir arfer da a nodwyd yn ymgyrchoedd Heddlu Dyfed-Powys. |
| 14 | JL i rannu drafft o'r daflen gwyno newydd i aelodau'r GYA ar gyfer adborth pan mae'n barod. | JL | Yn parhau – Bydd y Swyddfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'r Adran Safonau Proffesiynol yn uno ar 1 Ebrill 2018. Bydd y daflen newydd am gwyno'n cael ei chyhoeddi ar ôl y dyddiad hwn. |
| 15 | MBr i osod craffu ar Stopio a Chwilio mewn perthynas â'r newidiadau o ran cyfrifoldeb ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf. | MBr | Cwblhawyd – Gwahoddwyd CB i roi diweddariad ar ran SCHTh. |
| 16 | Dylai unrhyw aelodau o'r grŵp sydd eisiau mynychu'r cyfarfod cod moeseg ddweud wrth MD. | Pob aelod | Cwblhawyd – Bydd dyddiadau cyfarfodydd sy'n ymwneud â'r Cod Moeseg yn cael eu rhannu. |

3. Adolygiad o wefan newydd yr Heddlu

Rhoddodd EN drosolwg o wefan newydd Heddlu Dyfed-Powys (HDP). Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r wybodaeth sydd ar gael ar y wefan.

Awgrymwyd y dylid rhoi rhif ffôn negeseua testun yr heddlu ar gyfer pobl fyddar ar y dudalen 'Cysylltwch â Ni' ar wefan HDP. Ar hyn o bryd, dim ond y rhif ar gyfer negeseuon testun brys sy'n cael ei gynnwys.

Cam gweithredu:- EN i gynnwys y rhif yr heddlu ar gyfer negeseuon testun difrys ar y dudalen 'Cysylltwch â Ni' ar wefan HDP.

Gofynnodd AL i PS a RB pa wybodaeth yr hoffent weld ar dudalen we laith Arwyddion Prydain HDP. Dywedodd PS y byddai esboniad o ran ystyr galwadau 999 ac 101 yn fuddiol oherwydd nid yw'r gymuned fyddar yn deall y gwahaniaeth.

Cam Gweithredu:- EN i gynnwys esboniad ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng galwadau 999 a galwadau 101 ar dudalen we laith Arwyddion Prydain HDP.

Awgrymodd PS y dylai tudalen we laith Arwyddion Prydain HDP fod yn fwy gweledol ar gyfer y gymuned fyddar. Esboniodd PS na fyddai rhywun byddar o reidrwydd yn darllen llawer o destun oherwydd mae'n bosibl mai laith Arwyddion Prydain fyddai ei iaith gyntaf. Byddai clipiau fideo laith Arwyddion Prydain yn fwy defnyddiol yn hytrach na thestun. Awgrymodd EN y gallai edrych ar ychwanegu mwy o glipliau laith Arwyddion Prydain yn hytrach na chreu ardal ar wahân ar gyfer defnyddwyr laith Arwyddion Prydain.

Holodd EN y grŵp am eu barn ynglŷn â fformat a lliw'r testun ar wefan HDP. Cafwyd trafodaeth ynghylch hygyrchedd mewn perthynas â maint ffont. Dywedodd EN y gellir newid y maint ffont drwy osodiadau hygyrchedd ar ddyfeisiau electronig. Dywedodd DT bod lliwiau gwefan HDP yn gweithio'n dda.

Dywedodd DT yr hoffai weld gwybodaeth am iechyd meddwl ar wefan HDP. Yn ogystal â darparu gwybodaeth heddlu, dywedodd EN y byddai dolenni'n cael eu cynnwys ar gyfer gwefannau cymorth sy'n ymwneud â materion megis ble i droi am help pan mae rhywun yn teimlo fel cyflawni hunanladdiad, neu ble i gael cymorth pan mae rhywun wedi marw, er enghraifft. Cytunodd y grŵp y dylai pob aelod gael golwg ar wefan HDP yn eu hamser eu hun a rhoi adborth i MBr.

Cam Gweithredu:- Pob aelod o'r GYA i gael golwg ar wefan newydd HDP a rhoi adborth i MBr. Cyfeiriad y wefan - <https://www.dyfed-powys.police.uk/>

Holodd EN y grŵp sut y byddent yn cael mynediad i wefan HDP h.y. drwy iPad, llechen, gliniadur, cyfrifiadur neu ffôn symudol. Dywedodd y grŵp y byddent yn defnyddio iPad, llechen, gliniadur neu gyfrifiadur yn bennaf.

Dywedodd PS nad oes gan y rhan fwyaf o bobl fyddar llinell tir adref gan mai tecstio a ddefnyddir yn bennaf, ac awgrymwyd y byddai facetime yn arf defnyddiol fel dull cyswllt. Nid oes llawer o bobl fyddar yn defnyddio teipiadur minicom am ei fod yn ddrud ac nid yw'n helpu gyda sillafu Saesneg. Wrth ddefnyddio negeseuon testun, mae'n haws gan fod gwiriwr sillafu ar gael. I'r rhan fwyaf o bobl fyddar, yr unig ffordd o gael mynediad at wasanaeth yw drwy'r gwasanaeth testun ar eu ffôn symudol.

Dywedodd EN y byddai'r heddlu'n edrych ar sut i ehangu cyfryngau cymdeithasol fel dull cyswllt nes ymlaen yn y flwyddyn oherwydd dyna'r dull sy'n dod yn ffefryn ar gyfer cyfathrebu, lledaenu gwybodaeth/newyddion ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Cafwyd trafodaeth am gyfryngau cymdeithasol a sut y gellir ei ddefnyddio i gysylltu â HDP. Dywedodd EN bod facetime yn dod yn fwyfwy poblogaidd fel dull cyswllt ar gyfryngau cymdeithasol a gofynnodd i'r grŵp pa un ai a fyddent yn defnyddio hyn fel ffordd o gysylltu â HDP pe bai ar gael. Dywedodd PS fod y gymuned fyddar yn defnyddio facetime i gysylltu â'r banc, brocer yswiriant ac ati. Mae hwn yn wasanaeth cyfieithu fideo laith Arwyddion Prydain byw ac mae'n well na negeseuon testun. Dywedodd AL fod HDP wedi derbyn arddangosiad ar hyn

eisoes ac mae'n cael ei ystyried gan Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu. Bydd EN ac AL yn cwrdd er mwyn trafod sut y gellir cyflwyno arwyddo byw i'r heddlu.

Cam Gweithredu:- AL ac EN i ymgysylltu a thrafod sut y gellir cyflwyno gwasanaeth cyfieithu fideo laith Arwyddion Prydain i'r heddlu fel ffordd o gyfathrebu.

4. Trosolwg o rôl Swyddogion Cyswllt Ysgolion

Rhoddodd BJ drosolwg i'r grŵp mewn perthynas â School Beat Cymru a rôl y Swyddog Cyswllt Ysgolion. Cyflwynodd BJ IA i'r GYA, sy'n Swyddog Cyswllt Ysgolion yn ardal Ceredigion.

Esboniodd BJ fod y rhaglen hon wedi'i chyflwyno nôl yn 2004 a'i bod hi'n rhaglen Cymru gyfan sy'n cael ei hariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru a'r 4 Heddlu yng Nghymru. Mae 13 swyddog heddlu'n cyflawni rôl Swyddogion Cyswllt Ysgolion. Mae'r rhaglen ar gyfer plant rhwng 5 ac 16 oed.

Cafwyd trafodaeth am y pynciau sy'n cael eu cyflwyno o fewn yr ysgolion. Os oes problem benodol o fewn cymuned, esboniodd BJ y byddai'r ysgol yn targedu'r maes hwn h.y. os oes problem o ran bwlio, byddai pecyn bwlio'n cael ei gyflwyno o fewn yr ysgol. Mae HDP yn gweithio gyda phob ysgol o fewn yr ardal heddlu er mwyn diogelu plant.

Holodd PS pa un ai a yw ysgolion byddar yn derbyn ymweliadau. Dywedodd BJ fod ysgolion arbenigol yn derbyn ymweliadau, a byddai'n cadarnhau pa rai yr ymwelir â nhw wrth PS.

Cam Gweithredu:- BJ i roi gwybod i PS pa ysgolion byddar arbenigol yr ymgysylltir â nhw fel rhan o'r cynllun School Beat Cymru.

Mynegodd PS bryder fod gan rai pobl fyddar eu ffonau symudol o'u blaenau a'u bod nhw'n edrych arnynt ac yn anfon negeseuon testun wrth yrru. Mae PS yn poeni nad ydynt wedi'u haddysgu yn yr un ffordd. Dywedodd IA fod ysgolion yn fwy cynhwysol yn awr ac mae cynorthwyrwyr dysgu'n helpu unigolion i sicrhau bod gan bob plentyn fynediad at y wybodaeth a ddarperir.

Rhoddodd PS ddiolch i BJ ac AI am y cyflwyniad a dywedodd fod y rhaglen yn un arbennig o dda a diddorol. Dywedodd BJ ei bod hi'n bwysig iawn fod plant yn gwybod ble i fynd am help ar gyfer unrhyw broblem maen nhw'n dod ar draws - hon yw'r elfen bwysicaf o fewn y rhaglen hon.

Gofynnodd PS pa un ai a yw gwasanaeth negeseua difrys HDP yn cael ei osod ar wybodaeth a roddir i ysgolion. Bydd AL a BJ yn cwrdd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth y mae HDP yn rhoi i ysgolion yn hygyrch ac yn cynnwys rhif gwasanaeth negeseuon testun difrys HDP.

Cam Gweithredu:- BJ ac AL i gwrdd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth y mae HDP yn rhoi i ysgolion yn hygyrch ac yn cynnwys rhif gwasanaeth negeseuon testun difrys HDP.

Mynegodd DT bryder ynglŷn ag ariannu'r cynllun School Beat Cymru, ac os oedd y cynllun yn cael ei ariannu gan grant, yna does bosibl ei fod yn agored i doriadau yn y dyfodol?

Dyweddodd BJ fod Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau'n gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cyllid yn y dyfodol er mwyn gwneud yn siŵr fod gan bob plentyn yng Nghymru fynediad i'r rhaglen hon. Holodd DT pa un ai a yw'r rhaglen hon yn cael ei chyfuno â rhaglen addysg gymdeithasol ysgolion. Cadarnhaodd BJ fod y rhaglen School Beat Cymru'n ffurfio rhan o gwricwlwm addysg gymdeithasol bersonol yr ysgolion. Fel rhan o'r cynllun hwn, mae dyletswydd ar ysgolion i gael asiantaethau partner gwahanol i siarad â phlant ynglŷn â'r gwahanol bynciau. Mae HDP yn gweithio ochr yn ochr â'r ysgol ac yn darparu mynediad i ysgolion i wybodaeth bellach y gallant ei chyflwyno yn yr ysgol eu hunain. Hefyd, mae safle ar gyfer plant fel eu bod nhw'n medru ail ymweld â rhai o'r meysydd sydd wedi'u trafod o fewn eu dosbarth. Dywedodd PS fod swyddogion cyswllt ysgolion yn fodelau rôl da ar gyfer disgyblion.

Dyweddodd BJ fod gwefan School Beat Cymru dal yn cael ei datblygu a gofynnodd i'r grŵp gael golwg ar y wefan a rhoi adborth i MBr.

Hysbysodd BJ y grŵp mai @DPSchoolbeat yw cyfrif Twitter cynllun School Beat HDP, a gall aelodau'r GYA ddilyn y cyfrif hwnnw os ydyn nhw eisiau'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd o fewn ysgolion.

Cam Gweithredu:- Pob aelod i edrych ar wefan School Beat a rhoi adborth i MBr. Cyfeiriad y wefan yw - www.schoolbeat.org

Cam Gweithredu:- BJ i rannu cyflwyniad School Beat Cymru ymysg pob aelod o'r GYA ar ôl y cyfarfod.

5. Newidiadau i'r broses o graffu ar y weithdrefn Stopio a Chwilio

Esboniodd CB wrth y grŵp fod y Panel Craffu ar Stopio a Chwilio bellach yn eistedd gyda SCHTh. Esboniodd fod y newidiadau wedi'u gwneud er mwyn creu gwell annibyniaeth a thryloywder. Rhoddodd CB drosolwg mewn perthynas â'r broses newydd a sut y byddai'n gweithio wrth symud ymlaen. Esboniwyd y byddai Craffu ar Stopio a Chwilio'n eistedd o dan y Panel Sicrhau Ansawdd yn awr. Cadarnhaodd CB y byddai aelodau o'r GYA yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd y Panel Sicrhau Ansawdd lle y byddai Stopio a Chwilio'n destun craffu.

Hefyd, nododd CB fod cynlluniau ar gyfer mynd â'r Panel Sicrhau Ansawdd allan i grwpiau cymunedol er mwyn amrywio'r craffu a dderbyniwyd.

Awgrymodd DT y dylid gosod Craffu ar Stopio a Chwilio ar agenda'r GYA fel eitem sefydlog a chafwyd trafodaeth am hyn. Cytunodd y grŵp y dylai gwaith craffu yn gyffredinol gael ei gynnwys ar agenda'r GYA o fewn safbwynt amrywiaeth yn hytrach na chydymffurfiaeth.

Cam Gweithredu:- AL i gwrdd â CB a threfnu rhaglen dreigl o waith craffu gan fwydo i mewn i'r GYA er mwyn caniatáu i'r GYA sylwi ar ganfyddiadau a chodi unrhyw faterion o safbwynt amrywiaeth.

Cam Gweithredu:- MBr i osod Craffu SCHTh fel eitem sefydlog ar agenda'r GYA.

6. Data ynglŷn â'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau sydd i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2018

Rhoddodd ML drosolwg mewn perthynas ag adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, sy'n ofyniad gorfodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Esboniodd ML fod yr Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau'n dangos y gwahaniaeth rhwng y gyfradd gyfartalog fesul awr rhwng dynion a menywod a gyflogir gan Heddlu Dyfed-Powys. O 2017 ymlaen, mae'n rhaid i bob sefydliad sydd â 250 aelod staff neu fwy gyhoeddi manylion am eu bwlch cyflog yn flynyddol. Bydd adroddiad eleni ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau'n rhoi ciplun o ddata o'r flwyddyn flaenorol a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2018. Cadarnhaodd ML y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefan HDP a gwefan gov.uk.

Holodd DT pa un ai a oedd yr adroddiad yn nodi'r gwahaniaeth mewn perthynas â chyflog a dderbynnir ar gyfer gwaith cyfwerth. Esboniodd ML fod yr Adroddiad ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau'n canolbwyntio'n benodol ar y cyflog cyfartalog fesul awr y mae dynion a menywod yn derbyn o fewn y sefydliad ac nid yw'n darparu cymhariaeth â rolau tebyg am ei debyg.

Awgrymodd PS y gallai'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ymwneud â hyd gwasanaeth, ac mae'n bosibl fod gan fenywod llai o hynny o ystyried datblygiadau o ran cydraddoldeb rhwng y ddau ryw. Cadarnhaodd AL fod hyn yn bosibilrwydd, ac yn rheswm pam y mae menywod yn dueddol o fod yn y rolau sydd â chyflogau is yn hytrach na'r rhengoedd uwch, sy'n cael eu dal gan ddynton yn bennaf.

Derbyniwyd ymholiad gan RB mewn perthynas â gwaith rhan amser. Holodd a fyddai hyn yn gwneud gwahaniaeth. Dywedodd ML y byddai hyn yn effeithio ar y ffigurau; byddai naratif yn cael ei osod o fewn yr adroddiad er mwyn esbonio'r ffigurau.

Awgrymodd DT y gallai'r Heddlu ystyried cymhariaeth â data hanesyddol er mwyn gweld pa un ai a yw gwaith a wnaed gan yr Heddlu yn y gorffennol wedi cael effaith.

Gofynnodd AL i'r grŵp os oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut i annog menywod i ymgeisio am rolau uwch o fewn HDP. Dywedodd JJ ei bod hi'n bosibl nad oedd rhai menywod eisiau symud ymlaen yn eu gyrfaoedd oherwydd ymrwymadau teuluol. Esboniodd AL y byddai camau gweithredu cadarnhaol yn cael ei cymryd gyda menywod er mwyn sicrhau bod unrhyw rwystrau rhag datblygu'n cael eu nodi, a'u dileu neu eu lleihau lle bo'n briodol.

Cam Gweithredu:- Aelodau o'r GYA i anfon awgrymiadau ymlaen ynghylch sut y gall HDP gefnogi menywod i symud ymlaen at rolau uwch o fewn y sefydliad.

7. Diweddariadau o Gyfarfodydd Eraill

a. Cyfarfod Iechyd Meddwl Strategol

Rhoddodd DT ddiweddariad i'r grŵp a mynegodd bryder am fater penodol a godwyd yn y cyfarfod iechyd meddwl strategol. Cadarnhaodd fod awgrym yn y cyfarfod bod yr heddlu'n dal cofrestr o bobl o fewn ardal sy'n cael eu hystyried yn berygl iddyn nhw'u hunain neu eraill. Un o'r pethau sy'n cael ei ystyried yw pa un ai a ddylid dweud wrth bobl sydd ar y gofrestr eu bod nhw arni. Roedd DT yn teimlo ei bod hi'n bwysig fod pobl yn ymwybodol eu bod yn cael eu hystyried yn y modd hwn. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pha un ai a ddylai pobl fod yn ymwybodol ai peidio.

b. Bwrdd Cofleidio Amrywiaeth

Rhoddodd AL ddiweddariad i'r grŵp ynglŷn â chyfarfod diweddaraf y Bwrdd Cofleidio Amrywiaeth. Yn y cyfarfod hwnnw, trafodwyd pryderon a fynegwyd gan y GYA ynglŷn â gwahaniaeth hiliol a rhoddwyd camau gweithredu ar waith mewn perthynas â'r mater.

Cadarnhawyd bod y camau gweithredu canlynol wedi'u cytuno yng nghyfarfod y Bwrdd Cofleidio Amrywiaeth ac y byddant yn cael eu datblygu:-

- 1) Cynnal archwiliad o bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sydd wedi'u harestio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn deall yr amgylchiadau o gwmpas hyn, a nodi ystadegau troseddwr mynych. Sicrhau bod unrhyw ddysgu'n cael ei weithredu'n briodol;
- 2) Ailgyflwyno'r polisi Urddas yn y Gwaith sy'n gwahardd gwahaniaethu ac sy'n amddiffyn yn erbyn bwlio ac aflonyddu mewn perthynas â hil (mae hyn eisoes yn cael ei weithredu gan y gweithgor #FiHefyd);
- 3) Sefydlu cyswllt rheolaidd gyda phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n aelodau o'r gymuned sydd wedi mynegi diddordeb mewn ymuno â'r Heddlu;
- 4) Rhaglen ymgysylltu gyda chymunedau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig er mwyn cynyddu hyder yn y gwasanaeth heddlu, gan sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu mewn perthynas â hawliau unigolion, a'r hawl i gwyno;
- 5) Sicrhau fod profiadau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig sy'n swyddogion neu'n aelodau staff yn cael eu cipio yn yr arolwg staff blynyddol, a'u bod nhw'n cael eu gweithredu'n unol â hynny; ac
- 6) Uwch swyddog i fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y GYA er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â'r gwaith sy'n digwydd ar gyfer mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gwahaniaeth hiliol.

8. Gwerthusiad o'r Cyfarfod

Sicrhaodd DT fod deilliannau'r cyfarfod fel y'u gosodwyd yn agenda'r cyfarfod wedi'u bodloni. Cadarnhawyd bod yr holl ddeilliannau wedi'u bodloni.

Cadarnhawyd mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 21 Mai 2018. Cynhelir y cyfarfod yn ystafell SCC001 ym Mhencadlys yr Heddlu rhwng 10.30y.b. a 12.30y.h.

9. Crynodeb o'r camau gweithredu

| Rhif Cam Gweithredu | Manylion am y Cam Gweithredu | Perchennog |
|---------------------|--|------------|
| 1 | EN i gynnwys y rhif yr heddlu ar gyfer negeseuon testun difrys ar y dudalen 'Cysylltwch â Ni' ar wefan HDP. | EN |
| 2 | EN i gynnwys esboniad ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng galwadau 999 a galwadau 101 ar dudalen we laith Arwyddion Prydain HDP. | EN |
| 3 | Pob aelod o'r GYA i gael golwg ar wefan newydd HDP a rhoi adborth i MBr. Cyfeiriad y wefan - https://www.dyfed-powys.police.uk/ | Pob aelod |
| 4 | AL ac EN i ymgysylltu a thrafod sut y gellir cyflwyno gwasanaeth cyfieithu fideo laith Arwyddion Prydain i'r heddlu fel ffordd o gyfathrebu. | AL ac EN |
| 5 | BJ i roi gwybod i PS pa ysgolion byddar arbenigol yr ymgysylltir â nhw fel rhan o'r cynllun School Beat Cymru. | BJ |
| 6 | BJ ac AL i gwrdd er mwyn sicrhau bod y wybodaeth y mae HDP yn rhoi i ysgolion yn hygyrch ac yn cynnwys rhif gwasanaeth negeseuon testun difrys HDP. | BJ ac AL |
| 7 | Pob aelod i edrych ar wefan School Beat a rhoi adborth i MBr. Cyfeiriad y wefan yw - www.schoolbeat.org | Pob aelod |
| 8 | BJ i rannu cyflwyniad School Beat Cymru ymysg pob aelod o'r GYA ar ôl y cyfarfod. | BJ |
| 9 | AL i gwrdd â CB a threfnu rhaglen dreigl o waith craffu gan fwydo i mewn i'r GYA er mwyn caniatáu i'r GYA sylwi ar ganfyddiadau a chodi unrhyw faterion o safbwynt amrywiaeth. | AL ac CB |
| 10 | MBr i osod Craffu SCHTh fel eitem sefydlog ar agenda'r GYA. | MBr |
| 11 | Aelodau o'r GYA i anfon awgrymiadau ymlaen ynghylch sut y gall HDP gefnogi menywod i symud ymlaen at rolau uwch o fewn y sefydliad. | Pob aelod |